Cynllun Datblygu Lleol
Casnewydd

Strategaeth a Ffefrir: Papur Cefndir Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth

Hydref 2023



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Cynnwys

1 Cyflwyniad 3
2 Y Cyd-destun Cenedlaethol 5
2.1 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 5
2.2 Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 (DC) 7
2.3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur 8
2.4 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 8
2.5 Polisi Adnoddau Naturiol 9
2.6 Adroddiad am Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2019 9
2.7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 9
3 Y Cyd-destun Rhanbarthol 9
3.1 Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru (2000) 9
3.2 Cynllun Lles Gwent (2023) 10
4 Asesu ac Argymhellion 10
5 Polisi Arfaethedig 10

1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae polisïau SP5 Cefn Gwlad a SP9 Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig a'r cyfeiriad ym mholisi SP1 Cynaliadwyedd (ix) yn ffurfio polisïau strategol y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth Casnewydd a'i hamgylchoedd, gan gynnwys gwell cadernid ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, gan sicrhau bod manteision net yn cael eu hwyluso drwy ddatblygu. Mae'r rhain yn nodi:

1.1.2 SP1 Cynaliadwyedd

"Bydd angen i gynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy drwy ganolbwyntio datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy ar dir llwyd o fewn ffiniau'r annedd. Asesir eu cyfraniad posibl o ran:

…ix) cadw, gwella a chysylltu seilwaith gwyrdd, gan ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;"

1.1.3 SP5 Cefn Gwlad

Ni chaniateir datblygiad yng nghefn gwlad (hynny yw yr ardal o dir y tu hwnt i ffiniau anheddiad a ddangosir ar y cynllun ac ar fapiau mewnosodedig) onid yw'r defnydd yn briodol i gefn gwlad, yn parchu cymeriad y dirwedd a bioamrywiaeth y cyffiniau a'i fod yn briodol o ran maint a dyluniad. Ni fydd datblygiadau tai, arallgyfeirio gwledig a defnyddiau menter wledig, y tu hwnt i ffiniau'r anheddiad, ond yn briodol lle bônt yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol.

1.1.4 SP9 Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig

"Ceisir cadw, gwella a rheoli safleoedd cydnabyddedig yn yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ym mhob cais."

1.1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi'r angen am newid y rhain yn unol â'r canlynol:

SP1 Cynaliadwyedd - Angen adolygu – i adlewyrchu'r agenda creu lleoedd a sicrhau nad yw'r polisi'n dyblygu meysydd polisi eraill.

SP5 Cefn Gwlad - Bydd arolwg o ffiniau Aneddiadau a Phentrefi yn cael ei gynnal i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ers 2015 a phenderfyniadau dyraniadau datblygu.

SP9 Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig – Amlygodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) bryder lle mae gwrthwynebiad heb ei ddatrys mewn perthynas â'r effaith ar Adeilad Rhestredig. Ymchwiliad pellach i effeithiolrwydd y polisi hwn a chyfeirio at ganllawiau mwy diweddar, yn dilyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

1.1.6 Sicrhau bod amddiffyniad a manteision Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn gysylltiedig â'r materion canlynol a'r amcanion sy'n dod i'r amlwg o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN):

Materion
3. Angen amddiffyn dynodiadau amgylcheddol a hanesyddol cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol.
19. Mynd i'r afael â'r argyfyngau newid yn yr hinsawdd ac ecolegol lleol i gyflawni targedau lleol a gwytnwch ecosystemau.
20. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a buddion net, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd ar gyfer coridorau seilwaith gwyrdd presennol a newydd i wella cysylltedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.
24. Brwydro yn erbyn pwysau datblygu mewn ardaloedd arfordirol a'r gwastadeddau oherwydd eu diddordeb gweledol, hanesyddol ac ecolegol rhagorol.
30. Angen cefnogi'r gwaith o ddarparu, diogelu a gwella mannau agored, mannau chwarae a chyfleusterau chwaraeon, yn ogystal â chefnogi darpariaeth y rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.

Amcanion

7. Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth
Cynnal a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'i hamgylchoedd, gan gynnwys gwell gwydnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a hyblygrwydd, tra'n sicrhau bod manteision net yn cael eu hwyluso drwy ddatblygu.

9. Tirwedd
Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig.

2 Y Cyd-destun Cenedlaethol

2.1 Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

2.1.1 Diffinnir seilwaith gwyrdd gan PCC fel 'Rhwydwaith strategol o ardaloedd naturiol a lled-naturiol gyda nodweddion amgylcheddol eraill wedi'u dylunio a'u rheoli i ddarparu ystod eang o wasanaethau ecosystemau fel puro dŵr, ansawdd aer, lle ar gyfer hamdden a lliniaru ac ymaddasu i'r hinsawdd. Gall y rhwydwaith hwn o fannau gwyrdd (tir) a glas (dŵr) wella amodau amgylcheddol ac felly iechyd ac ansawdd bywyd dinasyddion. Mae hefyd yn cefnogi economi werdd, yn creu cyfleoedd gwaith ac yn gwella bioamrywiaeth.' Mae'n gallu darparu sawl swyddogaeth ar yr un pryd ac o ganlyniad mae'n cynnig manteision lluosog, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol gan gynnwys lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd, gwella cysylltedd cynefin a rhywogaethau bioamrywiaeth, darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, cyfrannu at iechyd a lles y cymunedau a darparu buddion gweledol i bawb.

2.1.2 Yn Adran 6.2, mae PCC yn nodi'r cyd-destun polisi cynllunio perthnasol ar gyfer Seilwaith Gwyrdd (SG), mae'n nodi:

• Dylai'r system gynllunio ddiogelu a gwella asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd oherwydd y rolau amlswyddogaethol hyn.

• Gall SG sicrhau bod manteision gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem yn cael eu rhoi ar waith mewn datblygiadau a lleoedd newydd, gan helpu i oresgyn y posibilrwydd o wrthdaro rhwng amcanion Lleoedd Unigryw a Naturiol, a chyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles.

• asesiadau SG i lywio gwelliannau bioamrywiaeth, gwydnwch ecolegol, canlyniadau lles, cyfleoedd strategol.

• Datblygu i gael yr effaith leiaf bosibl a darparu cyfleoedd ar gyfer gwella SG.

2.1.3 Yn Adran 6.4, mae PCC yn nodi bod angen i gynlluniau, strategaethau a chynigion datblygu:

• Cefnogi cadwraeth bioamrywiaeth, yn enwedig cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd.

• Sicrhau bod camau gweithredu yng Nghymru yn cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd.

• Sicrhau bod safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol.

• Diogelu rhywogaethau gwarchodedig a blaenoriaeth ac asedau bioamrywiaeth sy'n bodoli'n barod rhag effeithiau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu buddiannau cadwraeth natur ac yn cyfaddawdu gwytnwch rhwydweithiau ecolegol a'r cydrannau sy'n sail iddynt, fel dŵr a phridd, gan gynnwys mawn.

• Datblygu a gwella gwytnwch ecosystemau drwy wella amrywiaeth, cyflwr, maint, a chysylltedd rhwydweithiau ecolegol.

2.1.4 <u>Adran 6.4 Rhaid i awdurdodau cynllunio (Dyletswydd Adran 6):</u>

Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiadau achosi unrhyw golled sylweddol mewn cynefinoedd na phoblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu budd net i fioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cynllunio hefyd ystyried a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol:

1. Amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
2. Y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;

3. Graddfa ecosystemau;
4. Cyflwr ecosystemau, gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad; a

2.1.5 Gallu ecosystemau i ymaddasu. Rhaid i awdurdodau cynllunio ddangos eu bod wedi ceisio cyflawni dyletswyddau a gofynion Adran 6 Deddf yr Amgylchedd drwy gymryd pob cam rhesymol i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

2.1.6 Adran 6.4 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA):

Ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o beri niwed i SoDdGA a dylid adlewyrchu'r rhagdybiaeth hon mewn ffordd briodol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu. Ar gyfer datblygiad sy'n debygol o niweidio unrhyw un o nodweddion hysbys SoDdGA, rhaid i awdurdodau cynllunio rybuddio CNC am y gweithrediadau arfaethedig, a rhaid iddynt ystyried ei gyngor wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ac wrth osod amodau cynllunio.

2.1.7 Adran 6.4 Dynodiadau Anstatudol:

Cyn awdurdodi datblygiad sy'n debygol o ddifrodi dynodiad bywyd gwyllt lleol, dylai awdurdodau cynllunio roi hysbysiad o'r bwriad i gynnal y gwaith i Ecolegydd y Sir a sefydliadau amgylcheddol y trydydd sector.

2.1.8 Pan fydd Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd wedi nodi bod angen gwarchod neu wella nodweddion penodol o'r safle, dylai awdurdodau cynllunio ddatgan yn eu cynlluniau datblygu pa nodweddion neu briodoleddau sydd angen yr amddiffyniad ychwanegol hwn a pham, ac egluro sut y bydd y polisïau'n sicrhau'r amddiffyniad hwn.

2.1.9 Dylai polisïau ar gyfer safleoedd anstatudol ei gwneud yn glir nad yw dynodiadau o'r fath yn atal datblygiadau priodol, lle na cheir effeithiau andwyol ar y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi i'w gwarchod.

2.1.10 Rhaid i awdurdodau cynllunio ddilyn dull fesul cam o gynnal a gwella bioamrywiaeth a meithrin rhwydweithiau ecolegol gwydn trwy sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn cael eu hosgoi yn y lle cyntaf, yna eu lleihau a'u lliniaru, ac fel ateb olaf, eu digolledu; rhaid darparu gwelliannau lle bynnag y bo modd.

2.1.11 Adran 6.4 Rhywogaethau a Warchodir:

Dylai awdurdodau cynllunio lleol gynghori unrhyw un sy'n cyflwyno cais cynllunio bod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau statudol i warchod rhywogaethau sy'n effeithio ar y safle dan sylw, a'r cyffiniau o bosibl. Efallai y bydd angen arolwg ecolegol i gadarnhau a oes rhywogaeth a warchodir yn bresennol ac asesiad o effaith debygol y datblygiad ar rywogaeth a warchodir er mwyn helpu'r broses rheoli datblygu.

2.1.12 Dylai rôl a lleoliad coed trefol, a'u gofynion dylunio, o ran darparu manteision iechyd a lles i gymunedau, nawr ac yn y dyfodol gael eu hyrwyddo fel rhan o'r broses llunio cynlluniau a phenderfynu.

2.1.13 Dylai awdurdodau cynllunio warchod coed, perthi, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetir lle mae iddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol benodol, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol sydd wedi'i glustnodi i'r seilwaith gwyrdd.

2.2 Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 (DC)

2.2.1 Mae Llywodraeth Cymru am weld bioamrywiaeth yn cael ei gyfoethogi ac ecosystemau yn dod yn fwy gwydn ar draws y rhanbarth. Mae polisïau 9 a 15 yn nodi'r dull strategol cenedlaethol ac yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau lles cymunedau. Polisi 19(10) - Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol (rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd ar gyfer gwarchod neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a darparu seilwaith gwyrdd)

2.2.2 Polisi 9 Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd

Er mwyn cyfoethogi bioamrywiaeth, creu ecosystemau mwy gwydn a darparu seilwaith gwyrdd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i:

- nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u defnyddio i greu rhwydweithiau ecolegol oherwydd eu pwysigrwydd mewn perthynas ag ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, gwarchod, adfer neu greu cynefinoedd, amddiffyn rhywogaethau, neu ardaloedd sy'n darparu gwasanaethau ecosystemau allweddol, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu peryglu'n ormodol gan ddatblygiadau yn y dyfodol; a

- nodi cyfleoedd lle gellid gwneud y mwyaf o'r seilwaith gwyrdd presennol a phosibl fel rhan o weithgareddau creu lleoedd, gan ei gwneud yn ofynnol defnyddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur fel mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a lles.

2.2.3 Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys yr ardaloedd a/neu gyfleoedd hyn yn eu strategaethau a'u polisïau cynllun datblygu er mwyn hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a'r cyfleoedd y maent yn eu darparu. Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net) a gwneud ecosystemau ac asedau seilwaith gwyrdd yn wydn gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol o gynllunio safleoedd sy'n seiliedig ar natur ynghyd â dyluniad yr amgylchedd adeiledig.

2.2.4 Polisi 15 Fforest Genedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu fforest genedlaethol drwy nodi safleoedd a mecanweithiau priodol. Bydd camau i ddiogelu lleoliadau arfaethedig ar gyfer y fforest genedlaethol yn cael eu cefnogi.

2.2.5 Polisi 19(10) Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol wreiddio creu lleoedd fel egwyddor gyffredinol a dylent sefydlu ar gyfer y rhanbarth (a Chynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol lle bo angen)

…10. rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd ar gyfer gwarchod neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a darparu seilwaith gwyrdd; a…

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhanbarthau'r Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a De-ddwyrain Cymru.

2.3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur

2.3.1 Yn cefnogi'r gofyniad deddfwriaethol hwn i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth trwy roi natur wrth wraidd gwneud penderfyniadau a gwella gwydnwch ecosystemau trwy gymryd camau penodol sy'n seiliedig ar y 6 amcan ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.

2.4 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

2.4.1 Polisi ENV-01

Ei nod yw sicrhau bod elfennau biolegol a daearegol ecosystemau yn cael eu cynnal, eu hadfer a'u gwella lle bo hynny'n bosibl, i wella gwydnwch ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu darparu. Dan y polisi hwn, dylid ystyried sensitifrwydd ecosystemau morol ac effeithiau ecosystemau wrth ddatblygu cynigion a, lle bo'n bosibl, dylai cynigion hefyd ddangos sut y byddant yn cyfrannu at warchod, adfer a/neu wella ecosystemau.

2.4.2 Polisi ENV_02

Sicrhau ystyriaeth briodol o effeithiau posibl cynigion ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn cynnal eu cyfanrwydd o fewn ardal y cynllun morol a sicrhau cydlyniad cyffredinol rhwydwaith yr Ardal Forol Warchodedig. Mae'r polisi yn diogelu'r meysydd hyn i sicrhau cadwraeth hirdymor natur gyda gwasanaethau ecosystemau a gwerthoedd diwylliannol cysylltiedig ac yn cyfrannu at gyflawni'r targedau ar gyfer Disgrifyddion 1, 4, 5 a 6 Strategaeth Forol y DU.

2.4.3 Polisi ENV_07

Cydnabod bod angen cynnal cylchoedd bywyd pysgod a'r ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt er mwyn cefnogi gweithgareddau pysgodfeydd (gweler y bennod ar bolisi'r sector Pysgodfeydd yn y Cynllun hwn)., Mae gan rai datblygiadau neu weithgareddau yn ardal y cynllun morol y potensial i effeithio'n andwyol ar ardaloedd a chynefinoedd bwydo, bridio a mudo rhywogaethau masnachol neu warchodedig allweddol. Mae rhywogaethau pwysig yn cynnwys rhai o bwysigrwydd masnachol, cadwraeth, ecolegol neu hamdden. Stociau pysgod pwysig yw'r rhai sydd o werth masnachol neu hamdden neu'r rhai sydd â gwerth cadwraeth ehangach o dan ddeddfwriaeth genedlaethol neu ryngwladol.

2.5 Polisi Adnoddau Naturiol

2.5.1 Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Bolisi Adnoddau Naturiol (PAN) ym mis Awst 2017 yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Ffocws y PAN yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r PAN yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol: darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau, a mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar le. Mae'r PAN hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal (DA), a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (gweler isod), gan sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn llywio'r dull o gyflawni'n lleol. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i'r Datganiad Ardal perthnasol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

2.6 Adroddiad am Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2019

2.6.1 Un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n amlinellu sut mae'r sefydliad wedi mynd i'r afael â'i ddyletswydd bioamrywiaeth ac, o ganlyniad, yn cyflawni ei amcanion Lles ac amcanion y Cynllun Adfer Natur. Mae'r adroddiad yn dangos ymagwedd gadarnhaol ac yn amlygu'r prosiectau a'r uchelgeisiau hynny ar gyfer gweithio yn y dyfodol a all ddarparu tystiolaeth a mewnbwn perthnasol i CDLlN. Un o nodau'r Cyngor, a'r BGC, yw datblygu Cynllun Seilwaith Gwyrdd. Bydd cynllun o'r fath a'r dystiolaeth yn gefn iddo yn addysgiadol allweddol ar gyfer CDLl newydd ac yn bodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer asesiad o'r fath.

2.7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.7.1 Deddfwriaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (Deddf yr Amgylchedd) i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, gan ddarparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau bod yr adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy, a bydd hyn yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth uwch sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

2.7.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

3 Y Cyd-destun Rhanbarthol

3.1 Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru (2000)

3.1.1 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd hefyd ofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lunio Datganiadau Ardal. Mae Casnewydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Ardal ar gyfer De-ddwyrain Cymru.

3.1.2 Datblygir y Datganiad Ardal er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol (PAN) Cenedlaethol ac adeiladu ar y dystiolaeth a nodir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN).

3.1.3 Mae'r Datganiad Ardal wedi defnyddio dull graddfa tirwedd i ystyried ble a pham rydym am adeiladu gwydnwch ecosystemau o ran ardaloedd tirwedd arbennig ac unigryw De-ddwyrain Cymru. Cynhyrchwyd y Datganiad Ardal i lywio cynllunio ac mae'n helpu rhanddeiliaid i ystyried gwahanol ffyrdd o gydweithio sy'n bodloni'r pedair thema strategol:

> 1. Cysylltu ein tirweddau – nodi cyfleoedd lleol ar gyfer ein safleoedd gwarchodedig a'n hamgylcheddau naturiol ac adeiledig sy'n cyfrannu at wydnwch rhwydweithiau cynefinoedd sydd â blaenoriaeth ehangach yn y rhanbarth.

2. Gwent Parod ar gyfer yr Hinsawdd – nodi tirwedd a chyfleoedd ar raddfa ranbarthol ac ymyriadau ar y cyd ar gyfer ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru mewn modd sy'n cyfoethogi ecosystemau lleol a gwydnwch cymunedol

3. Iach, Heini a Chysylltiedig – nodi cyfleoedd ac ymyriadau cydweithredol sy'n gwarchod ac yn gwella iechyd a lles

4. Ffyrdd o Weithio – nodi manteision cydweithredu rhanbarthol strategol ac adnabod bod angen i ni wneud hynny ar raddfa ranbarthol er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran darpariaeth leol ac adnoddau naturiol.

3.1.4 Rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ystyried y Datganiad Ardal hwn a bod yn gyson ag ef a chaiff hyn ei farnu yn erbyn prawf cadernid adeg ei archwilio.

3.2 Cynllun Lles Gwent (2023)

3.2.1 Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd Cynllun Lles Casnewydd ei ddisodli gan Gynllun Lles Gwent, sydd wedi'i gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Daeth yr ymgynghoriad ar y Cynllun Lles drafft i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r Amcanion Lles yn cynnwys:

• Creu Gwent lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei warchod a'i wella.

4 Asesu ac Argymhellion

4.1.1 Mae gan Gasnewydd lu o nodweddion bioamrywiaeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae AMB y Cyngor yn nodi bod y CDLl wedi llwyddo i warchod yr adnodd hwn a bydd effaith bosibl unrhyw ddatblygu yn y dyfodol yn ffactor allweddol mewn Cynllun newydd. Bu newid cyd-destunol ers ei fabwysiadu a'r angen am gymhwyso dull ecosystemau wrth wneud penderfyniadau. Cyflwynwyd hefyd y gofyniad am gynnal Asesiadau Seilwaith Gwyrdd fel y nodir yn PCC ac mae ystyriaethau clir o weithredu Deddf yr Amgylchedd Cymru yn 2016 ar gyfer y CDLlN.

4.1.2 O ystyried pwysigrwydd bioamrywiaeth a manteision amlswyddogaethol ystyriaethau Seilwaith Gwyrdd (SG), mae'n ymddangos yn briodol cadw polisi strategol sy'n adlewyrchu'r agenda creu lleoedd ac o ran SP1 mae cyfle i adolygu'r agenda creu lleoedd a sicrhau bod y polisi yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol, ond nad yw'n dyblygu meysydd polisi eraill.

4.1.3 Amlygodd yr AMB bryderon ynghylch effeithiolrwydd y polisi hwn o ran Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol ac mae cyfle i wahanu elfennau Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig y polisi hwn. Un dull a ystyriwyd yw mynd i'r afael â'r cyd-destun newidiol o ran ecoleg a bioamrywiaeth drwy bolisi annibynnol a pholisi amgylchedd hanesyddol, gan ddileu cyfeiriad at yr amgylchedd naturiol. Argymhellir, trwy ddefnyddio'r dull hwn, bydd polisi trosfwaol newydd sy'n canolbwyntio ar ecoleg a bioamrywiaeth ac sy'n gallu ymgorffori Seilwaith Gwyrdd yn gallu canolbwyntio'n well ar fynd i'r afael ag effeithiau ar asedau rhestredig a heb eu rhestru a bydd yn gallu cefnogi'r adolygiad o bolisïau'r amgylchedd hanesyddol. Gellid mireinio geiriad y polisi hwn ymhellach mewn ymgynghoriad â CNC, Ecolegydd y Cyngor a swyddogion achos rheoli datblygu i ystyried sut bydd yn cael ei weithredu'n ymarferol. Fodd bynnag, mae'r adolygiad o bolisïau rheoli datblygu yn debygol o ddarparu penodoldeb i gefnogi gwarchod a gwella asedau seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth Casnewydd.

5 Polisi Arfaethedig

5.1.1 Dylid bwrw ymlaen â diweddariad arfaethedig i'r polisi strategol SP1 ac SP5. Dylid parhau i gynnwys SP1 mewn polisi datblygu cynaliadwy / creu lleoedd cynaliadwy, ac ymgorffori SP5 mewn polisi sy'n amlinellu'r strategaeth ofodol. Dylai geiriad polisi ar gyfer polisi creu lleoedd cynaliadwy gynnwys:

Creu Lleoedd a Dylunio Cynaliadwy

Bydd angen i bob cynnig datblygu newydd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy i gefnogi dyluniad o ansawdd uchel, iechyd a lles cymunedau. Byddant yn cael eu hasesu yn ôl eu cyfraniad tuag at y canlynol:

…

- Dull a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd, sy'n cael ei lywio gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd y Cyngor.

…

5.1.2 Dylid bwrw ymlaen â pholisi strategol newydd arfaethedig sy'n ymgorffori elfennau Amgylchedd Naturiol Polisi SP9 ac sy'n adlewyrchu awydd cenedlaethol i warchod a gwella asedau seilwaith gwyrdd. Dylid ystyried y geiriad polisi canlynol:

Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth

Bydd y datblygiad yn gwarchod ac yn gwella asedau seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth Casnewydd i sicrhau bod uniondeb a chysylltedd yr adnodd aml-swyddogaethol hwn yn cael eu cynnal a'u cryfhau, ac yn cael eu rheoli mewn modd cadarnhaol.

Mae seilwaith gwyrdd yn allweddol i gymeriad, elfen unigryw ac ymdeimlad o le yng Nghasnewydd, a gall gynnwys:

- Parciau, caeau chwarae, ardaloedd chwarae gwyrdd a mannau agored
- Coed (gan gynnwys coed stryd), coetiroedd, gwrychoedd, priddoedd a thirlunio
- Llwybrau hamdden strategol, llwybrau beicio, teithio llesol a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
- Systemau draenio cynaliadwy
- Mannau tyfu gan gynnwys rhandiroedd, perllannau cymunedol a gerddi cyhoeddus a phreifat mwy o faint
- Cefn gwlad ac arfordir sydd heb eu datblygu.
- Nodweddion tirwedd, daearegol a threftadaeth sy'n cyfrannu at leoliad y Ddinas
- Dyffrynnoedd afon strategol bwysig Wysg ac Ebwy
- Manteision bioamrywiaeth gan gynnwys safleoedd dynodedig a chysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth
- Lleiniau ymyl ffyrdd, ynysoedd cylchfannau a phlannu ar hyd ffyrdd er mwyn sgrinio.

Mae angen cysoni gwarchod a chadw seilwaith gwyrdd â buddion datblygu. Dylai datblygiad arfaethedig felly ddangos sut mae seilwaith gwyrdd aml-swyddogaethol wedi cael ei ystyried a'i integreiddio i ddull o greu lleoedd; bod budd net i fioamrywiaeth; a sut y gellir cynnal gwydnwch ecosystemau. Os bydd datblygiad yn arwain at golli amrywiaeth a graddau, cysylltedd a chyflwr y seilwaith gwyrdd, bydd angen iawndal priodol.

Dylid cysoni gwrthdaro posibl rhwng gwahanol elfennau o seilwaith gwyrdd fel rhan o unrhyw ddatblygiad, a lle bo'n briodol, dylai Datganiad Seilwaith Gwyrdd nodi sut y bydd dyluniad y cynllun yn cyfrannu at, neu'n gydnaws â, unrhyw Strategaeth Seilwaith Gwyrdd lleol neu ranbarthol a gyhoeddwyd..